


WORDSWORTH AVENUE



GWERTHUSIAD O'R ARDAL GADWRAETH

CAERDYDD

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Ardaloedd Cadwraeth
- 1.2 Gwerthusiadau
- 1.3 Cyd-destun y Polisi

2. Y CYD-DESTUN HANESYDDOL.....

- 2.1 Gwreiddiau a Datblygiad Hanesyddol yr Ardal

3. ASESU CYMERIAD YR ARDAL.....

- 3.1 Lle o Ansawdd Trawiadol
- 3.2 Presenoldeb Adeiladau Tirnod
- 3.3 Hierarchaeth Mannau Cyhoeddus a Phreifat
- 3.4 Deunyddiau Lleol neu Anarferol o Ansawdd Uchel yn y Treflun
- 3.5 Manylion Pensaernïol o Ansawdd Uchel
- 3.6 Tirlunio Caled a Meddal o Ansawdd Uchel

4. FFRAMWAITH AR GYFER GWEITHREDU.....

5. ARGYMHELLION.....

6. YMGYNGHORIAD.....

Atodiad 1 - Canllaw i Berchnogion Tai a Datblygwyr

Atodiad 2 – Cyngor am Goed a Thirlunio




Atodiad 3 – Adeiladau Rhestredig Statudol yn yr Ardal
Gadwraeth

Atodiad 4 – Geirfa

Atodiad 5– Adolygu'r Ffin

Llyfryddiaeth a Chanllawiau

Diolchiadau



1 cyflwyniad

1.1 Ardaloedd Cadwraeth

Mae Ardaloedd Cadwraeth yn ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Yr Awdurdod Cynllunio Lleol sy'n penderfynu dynodi ardal yn Ardal Gadwraeth, a hynny ar ôl asesu cymeriad yr ardal honno. Mae hyn yn aml yn cynnwys mwy na'r adeiladau yn unig. Gall cynllun y ffyrdd, golwg y strydoedd, coed a mannau gwyrdd i gyd gyfrannu at ansawdd yr ardal. Mae dynodi ardal yn Ardal Gadwraeth yn diogelu'r cymeriad hwn, drwy roi rhagor o reolaeth i'r Awdurdod Lleol dros ddymchwel adeiladau, mân ddatblygiadau a diogelu coed.

1.2 Gwerthusiadau

Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd i adolygu Ardaloedd Cadwraeth er mwyn penderfynu a oes angen newid y ffiniau a nodi camau posibl ar gyfer gwella a diogelu'r Ardal Gadwraeth. I reoli'r broses, mae Strategaeth Ardal Gadwraeth wedi'i pharatoi. Mae'r Strategaeth yn nodi blaenoriaethau'r ddinas, a'r meini prawf i'w defnyddio wrth asesu ardaloedd cyfredol a newydd. Mae'r meini prawf hyn wedi'u nodi yn Adran 4, 'Asesu'r Cymeriad'.

Mae'r gwerthusiad drafft hwn yn rhoi cyfle i benderfynu a oes angen newid ffin yr Ardal Gadwraeth; diffinio cymeriad yr Ardal Gadwraeth; nodi'r materion pwysig yn yr ardal a'r cyfleoedd i wella; ac ar ôl ymgynghori, mabwysiadu'r gwerthusiad a'r canllawiau i ddiogelu cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth.

1.3 Cyd-destun y Polisi

Rhan allweddol o'r Gwerthusiad yw diffinio cymeriad yr Ardal Gadwraeth, a bydd yn rhaid paratoi canllawiau addas ar gyfer hynny. Gall polisiau eraill sy'n cyd-fynd â'r fframwaith cynllunio statudol gynorthwyo â'r gwaith hwn. Gwneir hyn drwy Gynllun Datblygu Unedol Dinas Caerdydd, tan y bydd Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei fabwysiadu.

2 y cyd-destun hanesyddol

2.1 Gwreiddiau a Datblygiad Hanesyddol yr Ardal


Am ganrifoedd, tir ffermio agored oedd yr ardal lle saif Ardal Gadwraeth Wordsworth Avenue heddiw. Er i Crockherbtown ddod i'r amlwg fel maestref sylweddol yn yr oesoedd canol, tir agored oedd i'r dwyrain o Gaerdydd tan ddiwedd y 19eg ganrif. Yn y cyfnod hwn roedd Caerdydd yn dechrau dod i'r amlwg fel porthladd pwysig ar gyfer allforio glo a dur o Gymoedd y De a thu hwnt.

Yn sgîl trawsnewid Caerdydd o fwrdeistref Ganoloesol i un o borthladdoedd mwyaf Gorllewin Ewrop, tyfodd y maestrefi ar bob ochr i'r waliau canoloesol yn gyflym wrth i'r perchnogion tir weld potensial ariannol prydlesu eu tir ar gyfer adeiladu.

Dechreuwyd datblygu maestrefi'r dwyrain yn yr 1850au gan Charles Morgan o Ystâd Tredegar. Tua'r dwyrain ar hyd Heol Casnewydd y lleolwyd y twf hwn, lle datblygodd Ystâd Tredegar ardal breswyl o statws uchel, a enwyd yn Tredegarville. Datblygwyd Wordsworth Avenue ymhellach i'r dwyrain.

Adeiladwyd Wordsworth Avenue yn 1850, yn ffordd bengaead â choed wedi'u plannu ar ei hyd, yn arwain tua'r gogledd o garreg filltir gyntaf Heol Casnewydd. Mae ansawdd y ffurf a'r manylion pensaernïol ar yr adeiladau yn Wordsworth Avenue yn arwydd o gyfoeth Caerdydd, ac yn enwedig Ystâd Tredegar, yn y cyfnod hwn.

Map 1: Ardal Gadwraeth Wordsworth Avenue yn y 1880au



- Ardal The Parade o Gaerdydd
- Dociau Caerdydd
- Woodland Place

3 asesu cymeriad



- Enghreifftiau o'r gwahanol arddulliau pensaernïol yn yr Ardal Gadwraeth

Mae nifer o nodweddion allweddol wedi eu nodi i gynorthwyo â'r gwerthusiad o'r ardal. Maent yn dilyn cyngor gan y llywodraeth ac wedi'u cynnwys yn Strategaeth Ardaloedd Cadwraeth Caerdydd 1997, sef:

- Ansawdd nodedig y lle.
- Presenoldeb adeiladau tirnod a nodweddion tirwedd.
- Hierarchaeth mannau cyhoeddus a phreifat.
- Deunyddiau lleol neu anarferol o ansawdd uchel yn y treflun.
- Manylion pensaernïol o ansawdd uchel.
- Tirlunio caled a meddal o ansawdd uchel.

3.1 Lle o Ansawdd Trawiadol

Grwpiau o Adeiladau

Cynlluniwyd Wordsworth Avenue yn un o faestrefi cyntaf Caerdydd ar adeg pan oedd y ddinas yn tyfu o ran cyfoeth a maint. Er bod cymeriad hanesyddol y maestrefi o amgylch wedi dioddef gan addasiadau helaeth, mae Wordsworth Avenue wedi cadw ei strydlun hanesyddol a'i chyfanrwydd pensaernïol.

Mae Ardal Gadwraeth Wordsworth Avenue yn cynnwys rhwydwaith o ffyrdd pengaead, y rhan fwyaf ohonynt â choed ar bob ochr y ffordd a'r rheiny'n arwain o Wordsworth Avenue ei hun. Ceir amrywiaeth ddiddorol o dai yn yr ardal, o filas pedwar llawr i fythynnod teras deulawr. Mae'n ardal hynod ei chymeriad oherwydd ei bod wedi ei hamgáu, gan ffurfio poced bach o ddatblygiadau preswyl sy'n arwain at Heol Casnewydd.

Mae'r ardal yn cynnig cymysgedd o arddulliau Fictoraidd nodedig a welir ochr yn ochr i'w gilydd yn y rhan fwyaf o'r adeiladau. Mae'r adeiladau ar Wordsworth Avenue wedi'u gosod yn derasau neu'n barau gyda waliau ffiniol isel, cynteddau neu erddi blaen bach wrth ymyl y palmant. Lleolir yr adeiladau teras deulawr neu dri llawr yn y pen o'r stryd sy'n agos at Heol Casnewydd ac mae'r eiddo mwy, 4 llawr, i'w cael i'r gogledd o Woodland Place.

Yn Southey Street gwelir tai teras deulawr o ddiwedd y 19eg ganrif sydd â chymeriad ac arddull tebyg i amryw o'r eiddo ar Wordsworth Avenue. Mae'r ffordd bengaead yn Woodland Place yn rhoi gwrthgyferbyniad deniadol â gweddill yr Ardal Gadwraeth, gyda thai teras o amgylch cwrt mewnol a nodweddion deniadol yn y tirlunio caled a meddal.

Cowper Place yw'r stryd fwyaf amrywiol yn yr Ardal Gadwraeth. Mae'n cynnwys ffordd bengaead ag eiddo o ddiwedd y 19eg ganrif, tai pâr o hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif a fflatiau o ail hanner yr ugeinfed ganrif yn Cowper Court.

Maint

Mae graddfa'r adeiladau o fewn yr Ardal Gadwraeth wedi'i diffinio gan dai Fictoraidd pedwar llawr ym mhen uchaf Wordsworth Avenue a bythynnod teras llai gyda dau neu dri llawr ar Southey Street ac i'r de o Wordsworth Avenue.

Maint y Plotiau

Mae'r plotiau o fewn Ardal Gadwraeth Wordsworth Avenue o'r un maint ar y cyfan, â'r tai ar hyd pob ffordd wedi'u lleoli yn ôl mewn llinell adeiladu gyffredin, sy'n golygu bod y gerddi ffrynt yn cyfrannu'n sylweddol at gymeriad y strydoedd.

Golygfeydd

Un o'r golygfeydd pwysig yw honno o ben Wordsworth Avenue ger Heol Casnewydd i gyfeiriad Cowper Place, lle mae'r adeiladau Fictoraidd 4 llawr a'r coed mawr yn amlwg iawn yn y strydlun. Golygfa bwysig arall yn yr ardal yw honno o Wordsworth Avenue i mewn i'r cwrt yn Woodland Place. Mae'r cwrt, gyda'i nodweddion tirlunio caled a meddal wedi'i amgylchynu â thair teras deulawr, yn ychwanegu at gymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth.

Patrymau Defnydd

Mae patrymau defnydd y tir ac adeiladau'r Ardal Gadwraeth yn adlewyrchu ei hanes a'i datblygiad fel ardal breswyl. Yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg y datblygwyd y tai teras Fictoraidd o statws uwch ar Wordsworth Avenue gyntaf, ac wedi hynny datblygwyd yr adeiladau teras llai ar Southey Street a Cowper Place. Ysgol Talbah yw'r unig adeilad yn yr Ardal Gadwraeth nad yw'n adeilad preswyl. Mae'n defnyddio un o'r adeiladau 4 llawr ar Wordsworth Avenue.

3.2 Presenoldeb Adeiladau Tirnod a Nodweddion Tirwedd


Ar gyfer y gwerthusiad hwn, adeilad tirnod yw un sydd â chysylltiadau cymdeithasol a hanesyddol arwyddocaol gyda datblygiad yr ardal, sy'n unigryw yn ei leoliad, ac sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad yr ardal. Fel ardal breswyl, mae Wordsworth Avenue â dau grŵp o adeiladau tirnod yn yr Ardal Gadwraeth.

Ysgol Talbah (King's College gynt)

Mae'r ysgol yn meddiannu adeilad a elwir yn Trevethen House ar gynllun arolwg ordnans 1880. Mae ganddo wal flaen â thalcenni ac mae wedi cadw ffenestri dalennog yn y ffenestr fae flaen a'r ffenestri bwaog uwchlaw. Mae bloc yn y cefn yn cysylltu'r adeilad â'r tai pâr cyfagos, gyda mynedfa garej modern â ffasgia drosto. Mae cyflwr gwael gorffeniadau allanol a'r wal ffiniol yn tansilio cymeriad y tŷ a chyfanrwydd y strydlun ehangach.

Woodland Place

Adeiladwyd y casgliad bach hwn o dai yng nghanol y 19eg ganrif ar gyfer Ystâd Tredegar. Arddull Eidalaid syml sydd iddynt ac maent yn nodweddiadol o waith William Habershon, sef pensaer yr ystâd yn y cyfnod hwnnw. Rhifau 6 a 7 yw'r tai mwyaf arwyddocaol; pâr o dai cyfatebol, â dau lawr a 3 ffenestr fae mewn



- Eiddo yn Cowper Place
- Yr olygfa i'r de o Wordsworth Avenue
- Fila yn yr arddull clasurol
- Ysgol Talbah



- 4 Cowper Place
- Wal ffin frics
- Wal ffin gerrig
- Eiddo o ddechrau'r ugeinfed ganrif

arddull fila syml gyda tho llechi a bondoeau bargodol â bracedau. Mae ffenestri bae mewnol y naill dŷ a'r llall wedi'u cydosod o dan un talcen canolog ac mae ganddynt ffenestri bae ar ogwydd gyda pharapedau â chopin. Mae 'agoriad' cylchog ffug wedi'i osod yn y talcen canol.

4 Cowper Place

Mae'r tŷ hwn wedi'i osod yn ei ardd ei hun ac fe'i adeiladwyd yn yr Arddull Eidalaid gyda dwy adain dalcennog o amgylch drws canolog yn wal flaen y llawr gwaelod.

3.3 Hierarchaeth Mannau Cyhoeddus a Phreifat

Mae'r holl eiddo yn yr Ardal Gadwraeth wedi'u lleoli yn ôl oddi wrth y stryd ac mae llawer ohonynt â gerddi blaen amgaaedig. Mae'r rhain yn cynnwys nifer o waliau carreg a rheiliau haearn bwrw gwreiddiol yn ogystal â waliau brics neu rendr modern. Fodd bynnag, ceir hefyd enghreifftiau o dai sydd â gwrychoedd neu goed bach wedi'u plannu o flaen yr eiddo.

Mae'r ffiniau rhwng y manau cyhoeddus a'r manau preifat yn llai amlwg yn Woodland Place. Yma, mae'r tai teras yn wynebu'r cwrt sy'n darparu llefydd parcio i'r preswylwyr ac ymwelwyr.

3.4 Deunyddiau Lleol neu Anarferol o Ansawdd Uchel yn y Treflun

Mae'r adeiladau yn yr Ardal Gadwraeth wedi'u codi mewn cyfnod gwahanol, â'r rhan fwyaf yn dyddio'n ôl i ganol neu ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Arddull yr Adfywiad Clasurrol sydd i fwyaf yr eiddo yn Wordsworth Avenue. Mae'r eiddo'n cynnwys parapedau, copinau a chonglfeini wedi'u mowldio, sydd oll yn nodweddiadol o'r arddull hwn.

Rendr, yn ogystal â deunyddiau megis brics, a ddefnyddiwyd yn bennaf ar gyfer waliau'r adeiladau yn yr Ardal Gadwraeth. Gwelir enghreifftiau o faen clo canolog yn cael ei ddefnyddio fel manylyn addurnol o amgylch ffenestri, drysau a pharapedau.

Mae nifer o adeiladau yn arddull yr ugeinfed ganrif ar Cowper Place, sy'n cynnwys deunyddiau mwy cyfoes megis brics, llechi artiffisial modern a ffenestri UPVC.

Mae'r waliau ffiniol wedi'i hadeiladu o gerrig neu frics yn bennaf, gyda rhai yn cynnwys rheiliau a gattiau haearn. Mae waliau ffiniol uwch o gerrig ar hap yn amgáu'r gerddi. Llechi a welir gan amlaf ar y toeau, wedi'u gosod ar oleddf isel tu ôl i barapedau addurnol. Mae'r simneiau wedi'u hadeiladu o frics neu gerrig.

Mae gan yr eiddo sydd wedi'u cadw mewn cyflwr da yn yr Ardal Gadwraeth ddrysau a ffenestri pren mewn arddull sy'n adlewyrchu cymeriad pensaernïol y tai. Fodd bynnag, mae llawer o enghreifftiau o ffenestri a drysau UPVC trwy'r ardal gyfan. Mae'r rhain yn anghydnaws ag oedran a chymeriad yr eiddo yn yr ardal.

3.5 Manylion Pensaernïol o Ansawdd Uchel

Datblygiadau Preswyl y 19eg Ganrif

Mae'r eiddo Neo-Glasurol yn yr ardal, a ddisgrifir yn aml fel 'Eidalaidd' o ran arddull, yn tueddu i fod yn dai pâr neu'n dai teras. Eu prif nodweddion yw waliau mewn rendr stwco llyfn gyda baeau ffenestri a fframiau drysau crwm neu hirsgwar wedi'u hamgylchynu yn amlach na pheidio gan bilastrau Corinthaidd addurniadol.

Yn gyffredinol, mae'r waliau rendr yn yr ardal wedi'u paentio mewn lliw golau, gan roi ffresni i ymddangosiad y tai hyn. Mae rhai o'r waliau rendr wedi'u hendorri neu eu garwhau er mwyn creu effaith blociau o gerrig nadd. Defnyddir congilfeini i dynnu sylw at y corneli ac fe'u hailadroddir weithiau yn yr addurniadau o amgylch drysau a ffenestri.

Yn gyffredinol, bondoeau â bracedau addurniadol neu blaen a welir ar y toeau.

Mae'n gyffredin gweld ffenestri bae gwaelod sydd ar ogwydd neu'n estynnol. Mae baeau ar ogwydd yn llai cyffredin ar y lloriau uwch ond gwelir rhai enghreifftiau yn yr ardal. Gwelir ffenestri bwaog neu grwm ar drydydd llawr rhai o dai'r Ardal Gadwraeth hefyd. Yn gyffredinol, mae'r fframiau drws wedi'u haddurno â chwfl sgwâr gyda chorbela neu heb gorbela, a gynhelir gan fracedau addurniadol.

Mae'r baeau ffenestri yn yr ardal fel rheol yn cynnwys ffenestri dalennog â dau neu bedwar cwarel ynddynt. Er bod llawer o'r eiddo wedi amnewid neu addasu eu ffenestri pren gwreiddiol yn sylweddol, mae nifer o enghreifftiau sydd wedi'u cadw'n dda trwy'r Ardal Gadwraeth gyfan. Mae'r rhain yn ychwanegu at yr arddull adeiladu a chymeriad arbennig yr ardal.

3.6 Tirlunio Caled a Meddal o Ansawdd Uchel

Tirlunio Caled

Mae tirlunio caled yn chwarae rhan bwysig yn yr ardal. Deunyddiau cyfoes megis concrit a tharmac sydd ar y ffordd a'r palmentydd. Nid oes unrhyw enghraifft o bafin Pennant yn weddill yn yr ardal.

Tirlunio Meddal

Mae'r tirlunio meddal yn Ardal Gadwraeth Wordsworth Avenue, megis y coed, dail a chloddiau, yn cydategu'r adeiladau a amgaeir ganddynt yn ogystal â'r waliau cerrig a'r goleuadau stryd, gan helpu i greu cymeriad arbennig yr ardal. Mae coed mawr yn tyfu'n rhesi ar hyd strydoedd yr ardal tra bo llwyni a choed bach i'w gweld yn y gerddi blaen a'r blaengyrtiau. Mae'r tirlunio meddal anffurfiol yn Woodland Place yn gwella cymeriad yr ardal, gan greu 'ynys' ddeniadol o fewn yr Ardal Gadwraeth.



• Eiddo o arddull neo-glasurol gyda waliau wedi'u rendro a stwco llyfn sydd fwyaf cyffredin. Mae enghreifftiau o ddatblygiad arddull yr ugeinfed ganrif i'w cael yn Cowper Court.

• Mae coed a chloddiau yn fframio strydoedd yr ardal.

4 fframwaith gweithredu

4.1 Cefndir

Mae adrannau blaenorol y gwerthusiad hwn yn disgrifio'r ansawdd sy'n creu cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth, ac yn nodi'r potensial ar gyfer gwella'r ardal. Mae'r adran nesaf yn dangos sut y gellir defnyddio'r ddogfen.

4.2 Prif Bwrpas y Gwerthusiad

Unwaith y caiff ei fabwysiadu, bydd y gwerthusiad a'r canllawiau'n cael eu defnyddio i wneud y canlynol:

- Diffinio cynllun gwella i arwain datblygiad yr ardal.
- Bod yn sail i'r gwaith o asesu ceisiadau cynllunio yn unol â pholisi 3 y Cynllun Lleol, tan y bydd Cynllun Datblygu Lleol wedi'i fabwysiadu.
- Gosod blaenoriaethau ar gyfer rheoli tir y cyhoedd yn y dyfodol.
- Rhoi canllawiau ar rinweddau arbennig yr ardal a sut i'w diogelu.

4.3 Manteision y Gwerthusiad

Rhagwelir y bydd y gwerthusiad a fabwysiedir yn dod â'r manteision canlynol i'r ardal.

- Cadw a gwella cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth drwy gadw, gwella a chynnal a chadw'r nodweddion a nodwyd yn y gwerthusiad sy'n cyfrannu at ei chymeriad.
- Rhoi canllawiau i berchnogion eiddo a phobl sy'n byw yn yr Ardal Gadwraeth.
- Darparu cymorth i berchnogion eiddo lleol ac i grwpiau, mentrau ac arweinwyr cymunedol yn eu hymdrechion i gadw a gwella'r Ardal Gadwraeth.
- Annog a chynghori ynghylch atgyweiriadau a gwelliannau cywir.
- Sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau newydd yn parchu cymeriad yr ardal ac yn cyd-fynd yn dda gyda'r ffurfiau a'r cynlluniau presennol.
- Gwella'r mwynhad o gymeriad arbennig yr ardal
- Sicrhau bod gwelliannau i dir y cyhoedd yn cael eu cyflawni gan barchu cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth.

4.4 Pwysau i Newid

Ceir pwysau a galwadau o bob math sy'n gallu amharu ar y gwaith o ddiogelu a gwella Ardaloedd Cadwraeth. Maent yn cynnwys:

- Pwysau i addasu neu ehangu adeiladau, ac yn arbennig siâp a maint eu toeau.
- Pwysau i newid adeiladau a thai er mwyn cyflawni amcanion eraill, er enghraifft gwell effeithlonrwydd ynni a diogelwch.
- Colli tirlunio meddal a chaled gan gynnwys waliau ffiniol, cloddiau, gerddi a choed.
- Galw am lefydd parcio ar y stryd, a hynny'n amharu ar y traffig.
- Cynllun a lleoliad mesurau rheoli traffig, celfi stryd a chyfleusterau rheoli gwastraff.
- Cynnal a chadw adeiladau neu ffiniau yn annigonol neu amhriodol.

4.5 Ffyrdd o Wella'r Ardal Gadwraeth

4.5.1 Materion Perthnasol a Chyfleoedd

Addasiadau i Adeiladau

Materion

- Gosod ffenestri gwydr dwbl neu upvc yn lle'r ffenestri dalennog pren gwreiddiol
- Colli drysau pren â phaneli a'r celfi drws gwreiddiol
- Colli waliau ffiniol a physt gatau

Cyfleoedd i Wella

- Parhau i hyrwyddo'r canllawiau a'r cynghorion ynghylch atgyweirio ac addasu adeiladau yn gywir yn yr Ardaloedd Cadwraeth.
- Annog adfer manylion gwreiddiol wrth ystyried y cynigion datblygu, a thrwy barhau i hyrwyddo'r canllawiau.
- Monitro'r newidiadau er mwyn lleihau effaith negyddol unrhyw fân newidiadau nas awdurdodwyd.

Tir Cyhoeddus Agored

Materion

- Colli palmantau hanesyddol a phalmantau o ansawdd gwael.

Cyfleoedd i Wella

- Ceisio gwella ansawdd tir y cyhoedd gan ddefnyddio cynllun o ansawdd uchel, deunyddiau ac offer stryd sy'n parchu cymeriad yr ardal.

Tirlunio

Materion

- Mae angen rheoli'r coed stryd a choed yn y gerddi blaen yn briodol a rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i gyfrannu at gymeriad yr Ardal Gadwraeth.
- Mae rhai waliau ffiniol a rheiliau a physt gathiau yn anghyflawn neu wedi'u hamnewid / atgyweirio â deunyddiau amhriodol neu mewn cyflwr gwael oherwydd diffyg cynnal a chadw.

Cyfleoedd i Wella

- Cynnal a chadw a gwella'r rhesi coed yn y stryd ac annog rheolaeth briodol ar y coed sydd ar dir preifat.
- Dylid ceisio adfer y waliau ffiniol a'r rheiliau sy'n wynebu'r stryd wrth i'r cyfleoedd datblygu godi. Dylid gwrthwynebu tynnu waliau ffiniol ymaith.

4.5.2 Gweithio gyda'n Gilydd

Perchnogion Eiddo a Datblygwyr

Y ffordd fwyaf effeithiol o wella Ardal Gadwraeth yw sicrhau bod y rheiny sy'n cynllunio gwaith neu ddatblygiadau yn deall cymeriad yr ardal. Mae Adran 4 y ddogfen hon yn amlinellu'r cymeriad hwnnw, ac mae'r canllawiau penodol yn Atodiadau 1 a 2 sy'n rhoi cyngor ynglŷn â diogelu'r cymeriad mewn cynlluniau datblygu. Rhoddir cyngor hefyd i'r rheiny sy'n ystyried gwneud gwaith atgyweirio a chynnal a chadw.

Y Cyngor

Er mwyn gwella'r ardal gadwraeth, mae'n rhaid gweithio ar y cyd â

Gwasanaethau eraill yn y Cyngor neu mewn partneriaeth â'r gymuned a chyrrff cyhoeddus eraill. Yn y mentrau canlynol, gallai'r Cyngor fod yn allweddol wrth ddylanwadu ar welliannau a bwrw ymlaen â hwy:

- Mabwysiadu'r canllawiau a'r cyfleoedd i wella a nodir yn Atodiadau 1 a 2.
- Rheoli cyllidebau cyfredol y Cyngor yn effeithiol.
- Gwella, atgyweirio ac ehangu llwybrau troed a ffyrdd.
- Cynnal gwaith adfer ar goed sy'n eiddo i'r Cyngor, a phlannu coed newydd yn ôl yr angen.
- Cynlluniau adnewyddu cymdogaethau.

5 a 6 argymhellion ac ymgynghoriad

5 Argymhellion

Mae'r argymhellion canlynol yn crynhoi canfyddiadau'r gwerthusiad a'r camau gweithredu y gellir eu cymryd ar ôl ei fabwysiadu.

- Argymhellir cyhoeddi'r canllawiau yn Atodiadau 1 a 2 a'u dosbarthu i'r rheiny sy'n byw yn Ardal Gadwraeth Wordsworth Avenue neu sydd â diddordeb ynddi.
- Cadarnheir mai'r gwerthusiad a'i argymhellion a'i flaenoriaethau gweithredu yw'r sylfaen ar gyfer mentrau corfforaethol yn yr Ardal Gadwraeth.
- Sicrhau bod y gwerthusiad yn gweithredu fel fframwaith ar gyfer asesu ceisiadau cynllunio yn unol ag Adran 72 o'r Ddeddf.
- Cyfathrebu'n well gyda, grwpiau a thrigolion lleol mewn partneriaeth â Grŵp Ymgynghorol Ardaloedd Cadwraeth Dwyrain Caerdydd.
- Rhoi'r gwerthusiad a gwybodaeth am hanes yr Ardal Gadwraeth ar gael i'w hastudio yn y llyfrgell ac mewn ysgolion lleol.
- Cytuno ar gynllun priodol ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw er mwyn sicrhau bod gwaith a gynhelir ar dir y cyhoedd yn gydnaws â chymeriad yr Ardal Gadwraeth.

6 Ymgynghoriad

Mabwysiadwyd y ddogfen hon yn dilyn ymgynghori lleol.

Cysylltwch â'r Tîm Cadwraeth ar 029 2087 3485 i gael gwybodaeth am Adeiladau Rhestredig a dogfennau eraill sy'n ymwneud â pholisi cynllunio

Canllaw ar Atgyweirio ac Addasu yn yr Ardal Gadwraeth

Mae'r fframwaith polisi ar gyfer y canllaw hwn wedi'i gefnogi gan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, Polisi Cynllunio Cymru 2002, Cylchlythyr 61/96, Cynllun Adnewyddu Strwythurol De Morgannwg (Ardal Caerdydd) 1991 - 2011 Mabwysiadwyd Ebrill 1997, Cynllun Lleol Dinas Caerdydd a fabwysiadwyd Ionawr 1996 a Datganiad Ysgrifenedig y Cynllun Datblygu Lleol a Adnewydd 2003, ac mae ganddynt oll bolisiau sy'n berthnasol i ddiogelu a gwella'r amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys Ardaloedd Cadwraeth. Bydd y canllaw yn yr atodiad hwn hefyd yn cyd-fynd â pholisiau sy'n rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol sydd ar y gweill, y Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Canllawiau Cynllunio i Ddeiliaid Tai a'r Canllawiau Cynllunio Preswyl.

Noder y Cyfarwyddyd Erthygl 4(1) o fewn yr Ardal Gadwraeth, syn rheoli mân ddatblygiadau na fyddent, fel arfer, angen caniatâd cynllunio. Cyn gwneud gwaith neu addasu adeilad, mae'n bwysig cadarnhau gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol i weld a oes angen gwneud cais am ganiatâd cynllunio. Paratowyd taflen ar wahân sy'n rhoi cynghorion i ddeiliaid tai ynghylch y mater hwn. Gellir cael copi ohoni trwy gysylltu â'r Tîm Cadwraeth neu oddi ar wefan yr Awdurdod Lleol.

Mae Ardal Gadwraeth Wordsworth Avenue yn cynnwys nifer fawr o adeiladau hanesyddol, ac nid yw'r mwyafrif ohonynt wedi'u rhestru yn statudol. Mae'r adeiladau hyn wedi cadw nodweddion pensaernïol sy'n helpu i gynnal cymeriad yr ardal ac yn elfen hanfodol o'i diddordeb arbennig. Efallai y byddai gwneud mân addasiadau ac ychwanegiadau'n ymddangos yn ddibwys ynddynt eu hunain, ond wrth eu gweld gyda'i gilydd gallant gael effaith niweidiol ar nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth. Mae'n bwysig bod addasiadau'n parchu cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth.

Mae diddordeb arbennig yr Ardal Gadwraeth yn dibynnu ar y nodweddion allweddol a ddisgrifir ym Mhennod 4. Dylai addasiadau ddiogelu'r nodweddion allweddol hyn a dylid ystyried atgyweirio ac ailgyflwyno'r nodweddion pan fyddant wedi'u difrodi neu wedi diflannu. Mae'r canllawiau isod yn nodi'r arferion da ar gyfer datblygu'r Ardal Gadwraeth, gan nodi pryd mae angen caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith penodol a pha fath o ddatblygiad sy'n debygol o fod yn dderbyniol.

Waliau Allanol

Rendr yw'r gorchudd a ddefnyddir gan amlaf ar y waliau yn yr ardal gadwraeth. Mae'n bwysig gofalu amdano a'i gynnal a chadw er mwyn amddiffyn ffabrig hanesyddol yr adeilad a chynnal nodweddion clasurol y waliau blaen clasurol.

Ailbwyntio

Er nad oes angen caniatâd cynllunio wrth ailbwyntio adeilad sydd heb ei restru yn yr Ardal Gadwraeth, mae'n bwysig ystyried y canlynol: dylid paratoi'r uniadau'n briodol, dylid defnyddio mortar calch newydd sydd yr un lliw ac o'r un gwead â'r gwreiddiol a dylid adlewyrchu proffil a gorffeniad y gwaith gwreiddiol mor agos â phosibl. Ni ddylid defnyddio mortar sment caled gan y gall achosi difrod hirdymor i ffabrig yr adeilad.

Toeau a Thalcenni

Dylid cadw ac atgyweirio manylion addurnol ar y talcenni a'r toeau, fel teils crib, terfyniadau ac estyll tywydd addurnol. Bydd angen caniatâd cynllunio i'w tynnu ymaith, ac ni fydd hynny'n dderbyniol fel arfer. Pan fo'r manylion hyn wedi diflannu, anogir eu hailgyflwyno. Os yw'r manylion hyn wedi'u difrodi, bydd yn ofynnol eu

hamnewid am rai sydd yr un fath, gan y bydd hyn yn sicrhau bod nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth yn cael eu cadw neu eu gwella.

Yn aml bydd angen caniatâd cynllunio i wneud gwaith ail-doi. Os yw'n bosibl, dylid cadw deunydd gwreiddiol y to. Os bwriedir rhoi to newydd, dylid asesu'r posibilrwydd o aildefnyddio'r deunydd to gwreiddiol wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Llechi a theils naturiol newydd neu rai wedi'u hadfer yw'r ffordd orau o gadw nodweddion arbennig yr adeilad a'r Ardal Gadwraeth ehangach. Fodd bynnag, gall llechi a theils o ansawdd dda sydd wedi'u hatgynhyrchu fod yn orchudd derbyniol ar gyfer adeilad anrhestredig yn yr Ardal Gadwraeth.

Simneiau

Fel arfer, bydd angen caniatâd cynllunio i ddymchwel simnai. Fel arfer, ni roddir hawl i gael gwared ar simnai sy'n cyfrannu at yr ardal gadwraeth. Mae'n bwysig sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i gadw gwaith carreg neu waith brics, uniadau, mortar a manylion fel potiau clai, hyd yn oed pan nad yw'r simneiau'n cael eu defnyddio mwyach.

Cyfarpar Dŵr Glaw

Os yw'n bosibl, dylid cadw cwteri a pheipiau haearn bwrw ar waliau amlwg. Er nad oes angen caniatâd cynllunio i'w newid, dylai'r rhai newydd fod yn gydnaws ag ymddangosiad y rhai gwreiddiol er mwyn sicrhau bod nodweddion arbennig yr Ardal Cadwraeth yn cael eu cynnal.

Ffenestri Dormer a Ffenestri To

Mae angen caniatâd cynllunio i osod ffenestri dormer, lle bynnag y gosodir hwy ar y to. Gall gosod ffenestri dormer ar waliau sy'n wynebu priffordd gyhoeddus ymddangos yn anghydnaws, a gallant amharu ar gymeriad yr Ardal Gadwraeth. Fel arfer, bydd rhagdybiaeth yn erbyn gosod ffenestri to a ffenestri dormer mewn toeau sydd yn yr amlwg.

Fodd bynnag, gall ffenestri to fod yn dderbyniol pan fo ychydig yn unig ohonynt a'u bod yn fach o ran maint ac wedi'u lleoli mewn mannau llai amlwg ac yn yr arddull 'cadwraeth', h.y. heb ffrâm sy'n estyn allan uwchlaw'r llechi neu'r teils ar y to. Gall ffenestri dormer sy'n gadael golau i mewn trwy'r to gan ddefnyddio deunyddiau a manylion sy'n gydnaws â chymeriad ac ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth hefyd fod yn dderbyniol.

Mae'n bwysig nodi y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn disgwyl i'r ymgeiswyr ystyried gosod ffenestri to a ffenestri dormer ar waliau cefn llai amlwg, lle maent yn debygol o fod yn fwy derbyniol.

Mewn rhai adeiladau, mae ffenestri dormer yn cyfrannu'n sylweddol at yr Ardal Gadwraeth. Pan fydd angen ailosod neu roi ffenestri dormer newydd, dylid cael rhai sydd yr un fath. Mae'n annhebygol y bydd unrhyw gynnydd ym maint y ffenestr ddormer yn dderbyniol. Nid yw addasu ffenestr ddormer yn falconi neu yn nodweddiadol o'r Ardal Gadwraeth, ac ni fydd yn dderbyniol.

Ffenestri a Drysau

Bydd angen caniatâd cynllunio fel arfer i addasu ffenestri neu ddrysau, er nad oes ei angen yn aml ar gyfer atgyweiriadau neu ailosodiadau sy'n union yr un fath â'r rhai gwreiddiol. Dylid cysylltu â'r Tîm Cadwraeth i drafod y mater hwn.

Os yw'n bosibl, dylid cadw'r ffenestri dalennog a'r drysau pren gwreiddiol, a'u hatgyweirio. Mae atgyweirio pren sy'n dirywio yn fwy cynaliadwy yn amgylcheddol ac yn aml yn rhatach nag ailosod yn llwyr, ac mae i hynny'r fantais o gadw cymeriad gwreiddiol yr adeilad. Mae gan y Tîm Cadwraeth restr o seiri lleol arbenigol sy'n gallu atgyweirio neu adnewyddu ffenestri a drysau pren.

Os bydd angen gosod ffenestri newydd, dylai eu hymddangosiad, eu deunydd a'u pwrpas gyfateb yn agos i'r gwreiddiol.

Dim ond os ystyrir bod hynny'n cadw cymeriad yr Ardal Gadwraeth y ceir gosod ffenestri newydd yn lle'r rhai dalennog pren gwreiddiol. Sylwer bod ffenestri upvc yn aml yn anaddas oherwydd bod eu strwythur yn anorffod yn fwy trwchus. Gall hyn olygu nad oes ganddynt yr ysgafnder sy'n nodweddiadol o ffenestri dalennog pren.

Pan fwriedir gwneud addasiadau i adeilad sydd heb y ffenestri a drysau gwreiddiol, bydd ffenestri a drysau newydd sy'n debyg i ymddangosiad, deunydd a phwrpas y rhai gwreiddiol yn cael ei annog gan y byddant yn gwella cymeriad yr Ardal Gadwraeth.

Mae rhagor o gyngor am atgyweirio ffenestri a gosod rhai newydd ar gael mewn cyhoeddiad ar wahân, 'Atgyweirio a Ffenestri Newydd mewn Ardaloedd Cadwraeth' sydd ar gael gan y Tîm Cadwraeth neu ar wefan yr Awdurdod Lleol.

Efallai y bydd angen caniatâd cynllunio i addasu drysau a ffenestri newydd. Ni ddylid addasu maint agoriadau drysau a ffenestri gan fod hyn yn debygol o amharu ar ymddangosiad yr adeilad a'r grŵp y mae'n rhan ohono. Mae'n annhebygol y byddai agoriadau newydd yn dderbyniol ar waliau amlwg. Pan fydd addasiadau anaddas wedi'u gwneud, ac os bydd cyfleoedd datblygu ar gael, anogir ailgyflwyno'r patrymau ffenestri gwreiddiol.

Dylid cadw gwydr addurnol mewn ffenestri, drysau a ffenestri linter. Mae'n annhebygol y bydd unrhyw gynig i dynnu ymaith neu addasu gwydr addurnol yn dderbyniol. Os bydd gwydr addurnol wedi'i ddifrodi, dylid cael darn addas newydd yn hytrach na newid yr holl ffenestr.

Ni fydd yn dderbyniol gosod gwydr dwbl, onid yw'n cael ei wneud mewn ffordd sy'n cadw cymeriad yr Ardal Gadwraeth.

Yn aml gellir cael gwell effeithlonrwydd ynni a lleihau sŵn neu ddrafft o ffenestri drwy ddulliau sy'n parchu'r ardal, fel cynnal a chadw ac atgyweirio'r ffenestri'n briodol ac yn rheolaidd, gosod ail haen o wydr, gosod sribedi drafft, a defnyddio llenni trwchus hyd yn oed. Mae i'r dulliau hyn y fantais nad oes angen caniatâd cynllunio ar eu cyfer chwaith.

Dyfeisiadau Ynni Adnewyddadwy, Offer Cyfathrebu ac Offer Diogelwch

Gallai gosod offer ychwanegol ar adeiladau, at ba ddefnydd bynnag, gael effaith sylweddol ar gymeriad yr Ardal Gadwraeth. Os bydd yr offer hwnnw mewn lle anaddas, gallai gael effaith gronnus a fyddai'n niweidio cymeriad yr Ardal Gadwraeth. Pan fo angen caniatâd cynllunio, mae'n annhebygol y bydd offer o'r fath ar waliau ffrynt a waliau ochr amlwg yn dderbyniol. Mae waliau cefn neu dai allan yn aml yn lleoliadau mwy addas, cyn belled nad ydynt yn rhy amlwg nac yn niweidio cymeriad neu ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth. Os yw'r math hwn o offer wedi'i leoli mewn mannau anaddas ar hyn o bryd, dylid cael gwared arno pan fydd cyfle.

Gerddi Blaen

Mae gerddi blaen â glaswellt a phlanhigion yn nodweddiadol deniadol. Pan fydd angen caniatâd cynllunio, mae'n debygol y bydd yr angen i gadw'r cymeriad yn golygu na roddir caniatâd i osod cerrig pafin, tarmac neu addasu gerddi blaen mewn ffordd anaddas arall, yn enwedig pan fo manylion gwreiddiol i'w gweld o hyd. Os yw'r waliau a'r rheiliau yng nghynllun gwreiddiol yr ardd wedi diflannu, anogir eu hailgyflwyno.

Ni roddir caniatâd i ddefnyddio gerddi blaen ar gyfer parcio cerbydau. Pan fo'r gerddi'r blaen wedi'u haddasu eisoes i greu llefydd parcio i gerbydau, a phan fo'r cyfleoedd gwella'n caniatáu hynny, anogir ailgyflwyno'r gerddi blaen traddodiadol er mwyn gwella'r ardal.

Ffiniau Blaen

Bydd angen caniatâd cynllunio i dynnu ymaith y waliau ffiniol blaen. Pan fydd y waliau ffiniol blaen yn bodoli o hyd, bydd y rhain yn cael eu cadw mewn cynigion datblygu. Pan fydd y manylion hyn wedi diflannu, a phan fydd cyfleoedd datblygu'n caniatáu, anogir eu hailgyflwyno er mwyn gwella'r ardal.

Byddai rheiliau ar ben y waliau ffiniol wedi bod yn nodweddiadol gyffredin ar un adeg, ond ychydig o'r rhai gwreiddiol

sydd wedi goroesi. Ceir enghreifftiau diddorol o reiliau a gatau mwy diweddar, e.e. y rhai yn yr arddull art-deco sy'n cynrychioli pelydrau'r haul. Mae'n annhebygol y rhoddir caniatâd cynllunio i dynnu'r rhain ymaith.

Wrth atgyweirio neu adfer rheiliau a gatau, mae'n well defnyddio adrannau a phroffiliau sy'n adlewyrchu'r rhai a ddefnyddiwyd yn hanesyddol yn y stryd. Fodd bynnag, bydd rheiliau modern o ansawdd dda yn cael eu hystyried hefyd. Anaml iawn y bydd dyluniadau a brynir wedi'u gwneud yn barod yn briodol.

Pan fwriedir creu cloddiau newydd fel rhan o gynllun tirlunio sy'n gysylltiedig â cheisiadau cynllunio, mae'n bwysig plannu rhywogaethau sy'n addas i'r ardal gadwraeth. Bydd Swyddogion Cadw Coed yr Awdurdod Lleol yn gallu rhoi cyngor am rywogaethau addas.

Waliau Ffiniol Cefn

Yn nodweddiadol, mae'r waliau ffiniol yng nghefn ac wrth ochr y lonydd gwasanaeth tu ôl i'r tai (a ystyrir yn briffyrdd) yn waliau carreg sydd tua 2 fetr o uchder ac wedi'u hadeiladu o gerrig rwbel ar hap gyda chopin 'ceiliog ac iâr' ar eu pen. Bydd angen caniatâd cynllunio i dynnu ymaith y waliau hyn.

Fel rheol, ni fydd yn dderbyniol dymchwel y waliau ffiniol cefn a gosod agoriadau mawr newydd ynddynt.

Dylai cynigion am waliau newydd geisio adlewyrchu'r deunyddiau, uniadau, mortar a phwyntio'r waliau gwreiddiol, neu ddefnyddio deunyddiau eraill o ansawdd dda.

Estyniadau a Datblygiadau Newydd

Boed y cynllun yn un traddodiadol neu fodern, er mwyn i ddatblygiadau newydd ac estyniadau i adeiladau presennol fod yn llwyddiannus mewn Ardal Gadwraeth, mae angen deall nodweddion arbennig yr ardal honno.

Dylai estyniadau i adeiladau presennol a datblygiadau newydd yn yr Ardal Gadwraeth gadw neu wella cymeriad ac ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth drwy wneud y canlynol:

- Parchu ansawdd nodedig y lle, a fydd yn golygu parhau i ddefnyddio'r graen trefol presennol a'r rhythmiau fertigol a llorweddol yn ffurf yr adeiladau, er enghraifft yn y ffenestri, bondoeau a pharapedau.
- Cadw golygfeydd pwysig i mewn ac allan o'r Ardal Gadwraeth.
- Parchu'r defnydd cyfredol a wneir o'r tir.
- Atgyfnerthu hierarchaeth bresennol manau cyhoeddus a phreifat.
- Defnyddio deunyddiau a manylion pensaernïol o'r un ansawdd uchel â'r rheiny sydd yn yr adeiladau presennol.

Mae materion cynllunio mwy cyffredinol i'w hystyried hefyd. Er enghraifft, mae angen rhoi sylw i effaith datblygiadau ar amwynder cymdogion, yn arbennig o ran datblygiadau gormesol a cholli golau.

Canllawiau ar gyfer Gweithio â Choed yn yr Ardal Gadwraeth

Mae coed yn cyfrannu at gymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth ac mae gan yr Awdurdod Lleol bwerau yn yr Ardal Gadwraeth i'w diogelu. Rhaid i chi wneud cais ysgrifenedig i gael caniatâd gan yr Awdurdod Lleol ar gyfer gwaith arfaethedig ar goed. Yn benodol, rhaid i chi roi 6 wythnos o rybudd i'r Awdurdod Lleol o'ch bwriad i wneud y gwaith. Os na fydd yr Awdurdod Lleol yn ymateb o fewn chwe wythnos, gellir gwneud y gwaith beth bynnag heb hysbysu'r Awdurdod Lleol ymhellach. Mae cosbau'r llys am beidio â rhoi'r rhybudd hwn yn ddifrifol.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn caniatáu gwaith os bydd hynny o fudd i'r coed, a gall ganiatáu gwaith hefyd os bydd y manteision yn fwy na'r difrod i'r coed. Os nad yw'r Awdurdod Lleol yn rhoi caniatâd, gall yr Awdurdod wneud Gorchymyn Cadw Coed i atal y gwaith.

Nid yw gwaith yn golygu dymchwel neu ladd coeden yn unig, ond hefyd tocio sy'n fwy na 7.5 centimetr (tua 3 modfedd) mewn diamedr, wedi'i fesur 1.5 metr (tua 5 troedfedd) uwch y tir neu wreiddiau neu ganghennau difrodol, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Er enghraifft, dylid gwneud cais os ydych chi'n bwriadu addasu lefel y pridd ger coed, neu osod wynebau anhydraidd, fel llwybr neu dramwyfa newydd. Byddai'n drosedd hefyd difrodi coed drwy lygru eu hamgylchedd, er enghraifft rhoi chwynladdwr dail llydan ar lawnt gyfagos. Mae sawl eithriad rhag gorfod cael caniatâd, yn enwedig yn achos coed sy'n marw, wedi marw, neu'n beryglus.

Fel arfer, bydd yn rhaid plannu coed newydd yn lle rhai sy'n cael eu torri'n anghyfreithlon. Os yw'r gwaith dan sylw yn ymwneud â datblygiad sydd angen caniatâd cynllunio, dylech gynnwys y manylion yn y cais cynllunio. Ni fydd angen i chi wneud cais ar wahân.

Os oes gennych chi goeden fawr neu amlwg, fe'ch cynghorir yn gryf i gael cyngor gan feddyg coed ar gyfer ei rheoli yn y tymor hir. Bydd yr Awdurdod Lleol yn rhoi ystyriaeth deg i farn meddyg coed cymwysedig wrth ystyried ceisiadau. Yr Awdurdod Lleol sy'n rheoli coed ar y briffordd ac mewn parciau, ac mae ganddo raglen reoli tymor hir o dan oruchwyliaeth tyfwr coed cymwysedig.

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am goed mewn Ardaloedd Cadwraeth neu Orchmynion Cadw Coed cysylltwch â Swyddog Cadwraeth Coed yr Awdurdod Lleol ar (029) 2087 3178.

atodiad 3

Adeiladau Rhestredig yn yr Ardal Gadwraeth

Mae nifer o adeiladau a strwythurau yn yr Ardal Gadwraeth wedi'i rhestru yn statudol gan Cadw: Henebion Hanesyddol Cymru yn adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Mae hyn yn berthnasol i bob rhan o'r adeilad, gan gynnwys gwrthrychau a strwythurau, mewnlol neu allanol, beth bynnag fo'u gradd ar y rhestr a boed y nodwedd dan sylw wedi'i enwi ai peidio yn y disgrifiad ar y rhestr. Gall hefyd fod yn berthnasol i adeiladau cysylltiedig o fewn cwrtil y prif adeilad, a gall gynnwys y waliau ffiniol.

Mae angen Caniatâd Adeilad Rhestredig pan fo cynnig ar gyfer dymchwel, addasu neu estyniad sy'n effeithio ar ddiddordeb arbennig adeilad sydd wedi'i restru'n statudol.

Cofiwch: Mae'n drosedd cyflawni gwaith i adeilad a restrwyd yn statudol heb gael y Caniatâd Adeilad Rhestredig angenrheidiol yn gyntaf.

Mae'r adeiladau canlynol ar Restr Cadw o Adeiladau o Ddiddordeb Pensaernïol neu Hanesyddol:

- Deg tŷ yn Woodland Place

Mae gwybodaeth a chanllawiau ynghylch adeiladau rhestredig ar gael ar wefan y Cyngor yn www.caerdydd.gov.uk neu drwy gysylltu â Thîm Cadwraeth y Cyngor ar (029) 2087 3485.

Carreg nadd	Carreg sydd wedi'i naddu neu ei thorri i ffurf sgwâr.
Estyll Tywydd	Byrddau pren ar ochr talcen y to, a all gynnwys manylion addurnol.
Cadw	A dran amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru.
Ffenestri Dormer	Ffenest gyda tho wedi ei gosod ar do goleddol.
Adeilad rhestredig	Adeilad neu adeiledd arall sydd o bwysigrwydd pensaernïol neu hanesyddol penodol ac sy'n cael ei ddiogelu'n statudol gan Cadw.
Morter	Deunydd sy'n cael ei ddefnyddio wrth adeiladu i lenwi'r bylchau rhwng cerrig neu frics a'u glynu wrth ei gilydd.
Conglfeini	Cerrig neu frics a ddefnyddir fel nodwedd addurniadol ar gorneli adeilad. Mae'r cerrig yn cael eu gosod fel arfer mewn patrwm bach a mawr am yn ail.
Rendro	Gorchudd plastr, calch neu sment.
Ffenestr do	Agoriad â gwydr arno mewn to.
Gorchymyn Cadw Coed	Gorchymyn Cadw Coed – sy'n diogelu coed sydd wedi'u nodi yn y gorchymyn.

atodiad 5 adolygiad o'r ffin

Cefndir

Un o brif elfennau Gwerthusiad o Ardal Gadwraeth yw adolygu'r ffiniau i sicrhau bod yr Ardal Gadwraeth yn parhau i ddangos nodweddiad pensaernïol a hanesyddol amlwg. Mae'r asesiad hwn wedi canolbwyntio ar ardaloedd a allai gael eu cynnwys neu eu hepgor.

Y Ffin Bresennol

Lleolir Ardal Gadwraeth Wordsworth Avenue oddi ar Heol Casnewydd, ac mae ganddi ffiniau clir sy'n ymestyn ar hyd Oxford Lane ac Oxford Street; at Ysgol Gynradd St Peter ac at gefn y tai teras a leolir yn bennaf ar Elm Street.

Ers ei dynodi, nid yw'r Ardal Gadwraeth wedi newid fawr ddim o ran ei ffurf na'i chyfansoddiad. Y newidiadau mwyaf amlwg fu'r newidiadau i flaenau adeiladau a phafin y stryd ar Wordsworth Avenue, Southey Street a Cowper Place.



- Enghreifftiau o'r gwahanol arddulliau adeiladu o fewn ac ar ffiniau'r Ardal Gadwraeth

Map 2: Ardal Gadwraeth Wordsworth Avenue



Ardaloedd a Ystyriwyd ar gyfer eu Cynnwys

Mae'r bloc o fflatiau yn y fynedfa i Wordsworth Avenue yn ddatblygiad o ddiwedd yr ugeinfed ganrif sy'n wahanol o ran cymeriad ac ymddangosiad i'r rhai yn yr Ardal Gadwraeth, gellir cyfiawnhau ei hepgor o'r Ardal Gadwraeth o hyd.

Mae'r tai preswyl i'r dwyrain o Oxford Street yn Roden Court ac ar Elm Street hefyd yn anghydnaws â'r adeiladau yn yr Ardal Gadwraeth. Maent yn darparu ffin amlwg i'r Ardal Gadwraeth.

Ardaloedd a Ystyriwyd ar gyfer eu Hepgor

Mae'r datblygiad preswyl mwy cyfoes yn Cowper Court yn wahanol o ran ei gymeriad, hanes ac arddull pensaernïol. Fodd bynnag, fe'i cedwir yn yr Ardal Gadwraeth, er mwyn sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau neu newidiadau yn y dyfodol yn gydnaws â chymeriad, lleoliad a safonau pensaernïol y pentref a'r Ardal Gadwraeth.

Ffynonellau a Dogfennau Cyfeiriol

- Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990
- Canllaw Dylunio i Ddeiliaid Tai. Cyngor Dinas Caerdydd, 2007
- Cynllun Lleol Dinas Caerdydd Cyngor Sir Caerdydd, 1996.
- Cynllun Datblygu Unedol Caerdydd (Wedi'i Adneuo) Cyngor Dinas Caerdydd, 2003.

Diolchiadau

Archifdy Morgannwg.

Cadw: Henebion Cymru

Y Gymdeithas Fictoraidd.

